# Papur Elim, Heol Awst a'r Priordy

GOFALAETH CAERFYRDDIN A BANCYFELIN



**Cymdeithas amlddiwylliannol fyddai fy mreuddwyd, un sy'n amrywiol a lle mae pob dyn, menyw a phlentyn yn cael eu trin yn gyfartal. Rwy'n breuddwydio am fyd lle mae pob person o bob hil yn gweithio gyda'i gilydd mewn cytgord.**

**Nelson Mandella**

***Gweler yr erthygl y tu mewn***

**Rhifyn 11**
**PAPUR GORFFENNAF - AWST 2025**

# GAIR GAN EIN GWEINIDOG

## ‘Tu hwnt’


***I*** Nant Gwrtheyrn yr ymgasglodd Annibynwyr Cymru am dridiau ddiwedd Mehefin ar gyfer Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Ac am le arbennig i gyfarfod - tawel a hudolus gyda digon i’w wneud a’i weld yno.



Wrth grwydro ar hyd y Nant dyma weld, am y tro cyntaf, y cerflun hwn a elwir ‘Tu Hwnt’ - cerflun sy’n ein hysgogi i geisio gweld ymhellach na’r swyn rhamantaidd y mae’r tirlun yn ei greu ynom.

Edrych y ‘tu hwnt’ i’r hyn sy’n amlwg. Edrych y tu hwnt i orwelion arferol bywyd.

Am ganrifoedd, roedd pobl yn Ewrop yn edrych allan ar Gefnfor yr Iwerydd a'i orwel gorllewinol a’r gred gyffredinol oedd nad oedd unrhyw beth y tu hwnt i’r gorwel hwnnw.




Gwelwyd darlun o 'Golofnau Hercules' ar arfbais Sbaen yn y cyfnod hwnnw a’r geiriau: 'Dim Mwy Tu Hwnt' (No more beyond) oddi tanynt.

Yna, ym 1492, hwyliodd Columbus y Cefnfor. Mentrodd heibio i'r gorwel gorllewinol hwnnw. Pan ddychwelodd Columbus i Sbaen, newidiodd y brenin y geiriau ar yr arfbais. O hynny ymlaen y geiriau oedd: 'Mwy Tu Hwnt' (More beyond).

Ac mae’r cerflun arbennig hwn yn Nant Gwrtheyrn, o’r enw ‘Tu Hwnt’ yn ein hannog ni i feddwl y tu hwnt i’r gorwelion.

Ystyriwch y gorwelion yr oedd Iesu yn eu hwynebu. Roedd y traddodiad yr oedd yn perthyn iddo’n ei atal rhag ehangu ei orwelion. Codwyd muriau a oedd yn gwahanu glân ac aflan, cysegredig a halogedig, Iddew a Chenhedloedd, cyfiawn a phechadur. Gan

wynebu'r muriau hyn, cyflwynodd Iesu ffordd arall - ffordd tosturi. Dywedodd Iesu, 'Byddwch dosturiol, fel y mae Duw yn dosturiol' (Luc 6:36). Tra bo eraill yn llunio cylchoedd i eithrio pobl, lluniodd Iesu gylch ehangach i gynnwys y rhai a oedd wedi cael eu cau allan.

Digon cyfyngedig yw gorwelion nifer yn ein byd ni heddiw ac efallai bod rhai ohonon ni yn rhan o'r nifer hwnnw.

***OS*** mai cyfyng iawn yw'n gorwelion, cofiwn bob amser fod yna 'tu hwnt' yng nghwmni Duw.

**GWEDDÏWN**

Ehanga'n gorwelion O Dad nefol,
er mwyn i ni weld y tu hwnt i'r pethau cyfarwydd sy'n gwneud i ni deimlo'n gyfforddus.
Rho i ni hyder i fentro;
Rho i ni lygaid sydd yn gweld ymhell;
a rho i ni galon i ymateb i'r hyn a welwn.



**AMEN**

## DARLLENIADUR

| Mis Gorffennaf | Darlleniad |
|---|---|
| Wythnos 1 | Marc 6: 1-13 |
| Wythnos 2 | Marc 6: 14-29 |
| Wythnos 3 | Marc 6: 30-43 |
| Wythnos 4 | Marc 6: 45-52 |
| **Mis Awst** | **Darlleniad** |
| Wythnos 1 | Ioan 6: 24-35 |
| Wythnos 2 | Ioan 6: 35; 41-51 |
| Wythnos 3 | Ioan 6: 51-58 |
| Wythnos 4 | Ioan 6: 56-69 |

**DIOLCH YN FAWR**

*Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad*

**Gethin a Caroline Rees-Jones**

**Nigel George**

**Sulwyn a Glenys Thomas**

**Harry Evans**

**Margaret Lloyd Evans**

**Beti-Wyn, Elin a Sara**

**Alison Parsons**

**Nansi Hayes**

**Elfed a Nia Lewis**

**Bet Jones**

***at gyhoeddi'r Papur y mis hwn***

Gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin

**Da iawn bawb!**

**a fu'n cystadlu yn**

**Eisteddfodau**

**Cylch, Sir a Chenedlaethol**

**Yr Urdd,**

**ar y llwyfan a gwaith cartref.**

**Llongyfarchiadau!**

YN DYMUNO NODDI PAPUR YR OFALAETH?
Cyswllt
PHILIP JONES
Trysorydd
☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk



Gellir trosglwyddo cyfraniad i'r cyfrif isod gan nodi'ch enw a "papur" fel cyfeirnod:

'Eglwys Annibynnol Y Priordy' Banc Lloyds
30-91-68
Acc no: 00229403

neu osod cyfraniad yr yr amlen sydd gyda Phapur yr Ofalaeth (rhifyn papur) y mis hwn. Gellir dychwelyd yr amlen i'n Gweindog neu Ysgrifennydd yr Eglwys neu ei rhoi yn y blwch casglu.

## CYFLWYNO ELINOR!




**Y Parchedig Jeff Williams, y Llywydd ar y pryd, yn cyflwyno darpar Ysgrifennydd Cyffredinol newydd yr Undeb, Elinor Wyn Reynolds, i'r Gynhadledd yng Nghyfarfodydd yr Undeb yn Nant Gwrtheyrn. Bydd yn cychwyn ar ei gwaith ym mis Medi.**


# Taith Gerdded yr Ofalaeth



**Er gwaetha'r tywydd gwlyb, daeth 31 o gerddwyr dewr ynghyd i faes parcio'r Forest Arms, Brechfa prynhawn Sadwrn, 14 Mehefin. Yn ein disgwyl yno roedd Murray ein harweinydd a thaith o 4 milltir o'n blaenau. Teg yw dweud bod y cymylau wedi arllwys cymaint o law â phosib ar y cerddwyr yn ystod 10 munud cynta'r daith ond buan y ciliodd y glaw a daeth yr haul i wenu'n dirion arnom am weddill y ffordd. Aeth y daith â ni ar hyd rhai o heolydd cefn y pentref, a'r olygfa yn fendigedig ar hyd y ffordd.**

**Awr a hanner yn ddiweddarach, roedd yn braf gweld y Forest Arms yn y pellter, lle roedd paned gynnes a chacen yn ein disgwyl, ynghyd ag ambell aelod arall o'r Ofalaeth a ddaeth i'n cyfarch a rhannu paned â ni ar ddiwedd y daith.**

**Diolch yn fawr iawn i griw Capel Bancyfelin am drefnu prynhawn hyfryd i ni, ac i bawb a gefnogodd ym mhob ffordd.**



# DIWRNOD MANDELLA
# 18 GORFFENNAF

**Mae Diwrnod Rhyngwladol Nelson Rolihlahla Mandela (1918-2013) yn cael ei ddathlu'n flynyddol ar 18 Gorffennaf, sef diwrnod ei ben-blwydd.**



**Mandela arweiniodd y frwydr i ddod â'r drefn apartheid i ben yn Ne Affrica. Bu yng ngharchar am 27 mlynedd - 18 o'r rheini ar Ynys Robben. Fe'i rhyddhawyd 11 Chwefror 1990. Yn 1993, dyfarnwyd iddo Wobr Heddwch Nobel ynghyd â'r Arlywydd Frederik Willem de Klerk, am sicrhau terfyniad heddychlon i apartheid.**




**Cafodd ei ethol yn arlywydd du cyntaf y wlad yn 1994. Daeth ei arlywyddiaeth i ben yn 1999.**



**Yn 1998, daeth Nelson Mandela ar ymweliad â Chaerdydd a chyflwynwyd anrhydedd Rhyddid Dinas Caerdydd iddo yng nghastell y Brifddinas.**

**Cafodd Diwrnod Mandella ei sefydlu gan y Cenhedloedd Unedig ym mis Tachwedd 2009. Fe'i dathlwyd am y tro cyntaf ar 18 Gorffennaf 2010.**




**Pwrpas dathlu Diwrnod Nelson Mandela yw anrhydeddu bywyd ac etifeddiaeth Mandela, yn ogystal â hyrwyddo ei werthoedd o ryddid, cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol.**

**Mae'r diwrnod yn annog dinasyddion byd-eang i gyfrannu at wneud y byd yn lle gwell trwy weithredoedd gwirfoddol o**

wasanaeth.

Yn Ne Affrica, ac yn wir ar draws y byd, mae pobl yn cael eu hannog i neilltuo 67 munud o'u hamser ar y diwrnod hwn i wasanaeth cymunedol. Mae hyn yn cynrychioli'r 67 mlynedd o'i fywyd a dreuliodd Nelson Mandela ar wneud y byd yn lle gwell drwy ymladd dros gyfiawnder cymdeithasol.

Yn 2014, sefydlodd Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig Wobr Nelson Mandela, gwobr a roddir bob pum mlynedd i ddau unigolyn, un fenyw ac un dyn o wahanol ranbarthau daearyddol, i gydnabod eu gwasanaeth ymroddedig i ddynoliaeth, trwy hyrwyddo cymodi a chydlyniant cymdeithasol a thalu teyrnged ar yr un pryd i fywyd rhyfeddol Mandela a'i etifeddiaeth o gymod, trawsnewidiad gwleidyddol a thrawsnewid cymdeithasol.

Yn 2019, sefydlwyd Gwobr Nelson Mandela ar gyfer Hybu Iechyd gan Sefydliad Iechyd y Byd (WHO), sef asiantaeth dan y Cenhedloedd Unedig, i gydnabod unigolion, sefydliadau a / neu sefydliadau llywodraethol neu anllywodraethol sydd wedi dangos cyfraniadau rhyfeddol i hyrwyddo iechyd.

Mae'r dyfyniad o eiddo Mandella ar dudalen blaen ein Papur yn crynhoi'r freuddwyd fawr ac uchelgeisiol yr oedd ganddo. Mae'r ddelfryd yn golygu nid yn unig ymwneud â derbyn eraill ond hefyd ddod o hyd i dir cyffredin rhwng gwahanol ddiwylliannau ac adeiladu pontydd rhyngddynt.




'Dysg i mi weddïo' oedd thema'r oedfa yn yr Ŵyl Hirddydd Haf eleni. A thrwy gyflwyniad diddorol, yn cynnwys arbrawf, dangosodd Y Parchedig Beti-Wyn i ni fod gan bob un ohonom amser a rheswm i ddweud gweddi fach o ddiolch i Dduw, er gwaethaf prysurdeb ein bywyd cyfoes. Cymerwyd rhan gan wahanol eglwysi Presbyteraidd y cylch, yn cynnwys plant Ysgol Sul Babell Zion newydd. Talwyd y diolchiadau gan y Parchedig Emyr Williams. Roedd Helen Gibbon wrth yr offeryn. Hyfryd oedd cael y cyfle i ddod at ein gilydd i gydaddoli a chymdeithasu ar brynhawn mor fendigedig o braf.

# TRIP YSGOL SUL ELIM







*FFERM ANTUR A GOLFF FRIZBEE*
*CLERKENHILL,*
*HWLFFORDD*







## PANED A SGWRS

**Gwesty'r Llwyn Iorwg**
**Paned a Sgwrs a Myfyrdod Byr**
**Bore Mercher 17 Medi 2025 am 10.30**
**Croeso cynnes i bawb**

Eisiau gwybod mwy am Gyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin?
Trowch at:  cyfundeb.com



# PERERINDOD YR OFALAETH 2025



# Pererindod yr Ofalaeth 2025

***ROEDD*** y gwres llethol wedi dofi ychydig (trwy drugaredd!) erbyn bore Sul 22 Mehefin pan deithiodd llond bws o aelodau a ffrindiau ein Gofalaeth i gyfeiriad y gorllewin. Roedd y bws yn llawn sŵn a chyffro, a phawb yn falch iawn o gael y cyfle i ymlacio am y dydd a chymdeithasu.



**Ceffylau Gwedd**

Er mwyn ein paratoi ar gyfer ein hymweliad cyntaf, cawsom gwis ar y bws at y thema 'Ceffylau' a baratowyd gan Beti-Wyn. Ymatebodd pawb yn wych a chafwyd tipyn o hwyl!



Erbyn canol bore, roedd pawb yn barod am baned, a staff y Ganolfan Ceffylau Gwedd yn Eglwyswrw yn barod i'n croesawu. Cawsom fore bendigedig yn y Ganolfan, a dysgu am gysylltiad agos y teulu Lewis â'r traddodiad o gadw ceffylau gwedd ers cenedlaethau. Roedd gweld y ceffylau'n wledd i'r llygad a bu cyfle hefyd i ymweld ag amgueddfa hen beiriannau. Mentrodd y dewraf ohonom ar drelar y cwad beic a chael ein tywys i'r caeau i gwrdd ag Ann y Lama ynghyd â'r defaid! Roeddem yn mwynhau cymaint nes i ni benderfynu hepgor y daith i Aberteifi ac aros yn y Ganolfan i fwynhau ein pecynnau cinio yn yr haul yn ogystal â manteisio ar baned a chacen yn Caffi Celt. Wrth ddychwelyd i'r bws, roedd haid o geir 'vintage' wedi cyrraedd y cae ar eu taith drwy'r ardal a oedd yn dipyn o sioe! Roedd yr ymweliad â'r Ganolfan yn un gwerth chweil. Diolch yn fawr iawn i'r teulu Lewis am y croeso.



**Ebeneser, Dyfed**

Fel 'Y Capel yn cae' y disgrifir Ebeneser, Dyfed gan rai! Ac yn y capel ar b'nawn ein Pererindod roedd cwmni cynnes yn barod i'n croesawu ynghyd â'u gweinidog, Y Parchg Siân Elin Thomas. Roedd Siân Elin

newydd ddychwelyd o Lundain ble bu'n mynychu Cyfarfodydd



Blynyddol Undeb Bedyddwyr Cymru, a braf oedd clywed ychydig o'r hanes. Cawsom oedfa fendithiol iawn dan ei harweiniad yn seiliedig ar yr adnod o Efengyl Ioan: '*Syr, rwyf am weld Iesu'* – adnod sydd wedi'i ysgathru ar blât pres yn y pulpud yn Eglwys Gymraeg Canol Llundain, East Castle Street. Gwerthfawrogwyd y genadwri'n fawr iawn a mynegwyd hynny gan Beti-Wyn.  Treuliodd Siân Elin gyfnod yn ein gofalaeth pan oedd yn paratoi ar gyfer y weinidogaeth, a braf yw ei gweld yn blodeuo yn ei gwaith. Wedi'r oedfa, mwynhawyd paned, brechdan a chacen yn y festri trwy garedigrwydd yr aelodau. Brian Walters, Elim, fu'n llais i fynegi'n diolch am y lluniaeth hyfryd.

**Llantwd**
Hyfrydwch oedd cael taith sydyn i Lantwd dan arweiniad John Cwmbetws Davies a'i gyfaill Eirwyn i weld safle Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las 2026 ar dir sy'n eiddo i Eirwyn a'r teulu. Mae'n ardal yn gyffro i gyd a'r digwyddiadau codi arian yn cael eu cynnal ymhobman.  Addawodd Eirwyn safle gwastad neis i'n gweinidog ar ei dir ar gyfer ei Motorhome (fe fydd hi yn cofio Eirwyn!).

**Preseli**
Do, daeth y glaw erbyn amser te ond ni amrharodd ar y daith hyfryd ar hyd y Preseli wrth i Beti-Wyn nodi ambell fan o ddiddordeb ar hyd y ffordd ac yn eu plith Cofeb W R Evans a Bedd Twm Carnabwth yn Mynachlog-ddu.




**Swper**
***BUAN*** y daethom i Hendy-gwyn ar Daf a mwynhau swper y Roadhouse gyda'r staff yn gweini'n siriol wrth y byrddau. Diolchodd Beti -Wyn i bawb am ddod ar y daith, ac i'r rhai a fu'n casglu'r enwau: Joanne (Bancyfelin), Mair (Cana), Ann (Elim), Olga (Heol Awst) a Rhian (Y Priordy). Diolch hefyd i Adrian am ofalu am yr ochr ariannol a diolch arbennig i'n gyrrwr, Elfed Lewis am bob cymorth wrth baratoi'r daith ac am ein gyrru'n ofalus iawn ar hyd rhai o hewlydd digon cul gogledd Sir Benfro. Do, bu'n ddiwrnod da. Diolch bawb.

**Meleri Llwyd O'Leary**



## Oedfa Sul y Tadau yng Nghapel y Priordy
## 15 Mehefin 2025

***I*** nodi achlysur Sul y Tadau cafwyd oedfa gyda'n Gweinidog ar y thema Teulu. Yn wahanol i Sul y




Mamau nid yw  Sul y Tadau yn rhan o'r calendr Cristnogol. Er hynny, mae'n bwysig ein bod yn cofio'r Sul arbennig hwn ac yn cymryd y cyfle i ddiolch am ofal a chariad tadol, am deulu a chartref a'r rhai a ofalodd drosom. Bu rhai o dadau'r eglwys yn cymryd rhan yn y gwasanaeth - Huw Jones yn cyhoeddi'r emynau, Tim Hayes yn ein harwain mewn gweddi ac Emlyn Schiavone yn darllen o Lyfr yr Actau, Pennod 18.

Pwysleisiodd y Gweinidog yn ei neges bwysigrwydd teulu gan ein hatgoffa mai nid adeilad, gweinidog ac enwad yw eglwys ond yn hytrach chi a fi - ni yw'r eglwys, yn un teulu agos, teulu sy'n dod at ei gilydd er mwyn gogoneddu Duw. Yn wir, ni fyddai rhai ohonom yn adnabod ein gilydd heblaw am ein cysylltiad â theulu'r eglwys. Rydym yn perthyn i'n gilydd trwy Dduw.



Trafododd y Gweinidog hanes teulu Acwila a Priscila, pâr oedd wedi profi amseroedd anodd a phwysau mawr gan fod Acwila o dras Iddewig a Priscila o gefndir amlwg Rhufeinig. Fe achosodd hyn wrthdaro ac fe'u gorfodwyd i adael eu cartref a'u hardal. Mae pwysau a thensiwn ar ein teuluoedd ifanc ni y dyddiau yma, pwysau gwaith, prinder amser oherwydd prysurdeb bywyd a baich ariannol. Mae gan yr eglwys heddiw rôl bwysig i'w chwarae wrth osod seiliau moesol a'n dyletswydd yw cefnogi a helpu teuluoedd.

Teulu gyda Duw yn y canol oedd teulu Acwila a Priscila. Roedd Duw yn rhan ganolog o'u bywyd teuluol o ddydd i ddydd. Wrth i'r teulu fynd ar eu taith fe ddaethant ar draws yr Apostol Paul a rannodd hanes yr Efengyl gyda nhw. Roedd Paul wedi croesi eu llwybr ac mae Duw yn croesi llwybrau pob dydd, yn croesi ffyrdd pobl - nid ar ddamwain ond trwy fwriad.

Roedd Acwila a Priscila hefyd yn gwasanaethu Duw. Aethant gyda Paul i Effesus ac yno fe fuont yn pregethu ac esbonio’r Efengyl i Apolos. Roedd eu llwybr a llwybr Duw wedi croesi. Yn yr un modd, mae Duw wedi croesi’n llwybr a’n ffordd ni gan wneud ‘busnes Duw yn fusnes i ni hefyd’. Fel Acwila a Priscila mae gwasanaethu Duw yn rhan ohonom. Mae hanes y pâr yn ein hatgoffa bod gwaith gyda ni i’w gyflawni bob dydd, y gwaith o wasanaethu Duw.

Yn y ffydd Lwtheraidd mae Acwila a Priscila yn cael eu hystyried ymhlith y seintiau ac ar y 13eg o Chwefror bob blwyddyn byddant yn cael eu cofio. Roedd teulu Acwila a Priscila yn deulu sanctaidd. Roedd Duw wedi eu neilltuo i gyflawni gwaith arbennig. Byddent yn cynnal addoliad yn aml iawn mewn pabell neu yn eu cartref. Yn wir, ers tair canrif mae’r eglwys wedi cwrdd mewn adeilad syml i addoli Duw ac felly peth cymharol newydd yw’r capel fel man addoli. Rhywbeth syml yw’r eglwys yn wreiddiol, corff o gredinwyr ac rydyn ni wedi crwydro o’r symlrwydd hwnnw.

Mae hanes Acwila a Priscila felly yn ein hatgoffa o bwysigrwydd teulu a theulu Duw, a theulu’r eglwys yr ydym yn rhan bwysig ohono. Rydym yn perthyn i deulu arbennig iawn.

***NEGES*** bwrpasol oedd gan ein Gweinidog ar Sul y Tadau, sef ein bod i gyd yn perthyn, nid yn unig i’n teulu ni ein hunain ond i deulu’r ffydd, er mwyn gogoneddu a gwasanaethu Duw.



| THEATR CYMRU | |
|---|---|
| <br>***Golwg newydd ar y stori garu drasig enwog, sy’n gosod y ffrae ffyrnig rhwng y teuluoedd Montague a Capulet yng nghymdeithas dwyieithog Cymru*** | **ROMEO A JULIET**<br><br>**Steffan Cennydd – Romeo**<br>**Annes Elwy - Juliet**<br><br>**Ffwrnes, Llanelli**<br>**Mercher / Iau**<br>**22-23 Hydref 2025 – 7.30**<br><br>**Tocynnau: £18 \| £20**<br><br>***Bydd y cynhyrchiad arloesol hwn yn plethu’r Gymraeg a’r Saesneg, gan archwilio’r hunaniaeth Gymreig a chynnig safbwynt newydd ar ddrama anfarwol Shakespeare*** |

## JOSEPH HARRIS (GOMER)
## 1773 - 1825



**A wyddech chi mai Joseph Harris oedd yn gyfrifol am yr wythnosolyn cwbl Gymraeg cyntaf i'w gyhoeddi? Enw'r cyhoeddiad oedd Seren Gomer.**

**Cafodd Joseph Harris ei eni'n fab i hwsmon yn Llantydewi ger Cas-blaidd Sir Benfro, a'i fedyddio yn Llangloffan tua 1792/3.**

**Roedd yn mynd i'r Eglwys pan oedd yn ifanc ond aeth wedyn at y Bedyddwyr. Daeth yn weinidog Eglwys y Bedyddwyr yn Heol Gefn Abertawe. Yn ogystal â bod yn weinidog, bu'n cadw ysgol ddyddiol a siop lyfrau ac argraffwasg a bu'n weithgar iawn dros y Gymraeg.**

**Priododd â Martha Symonds, merch o Drefdraeth, Sir Benfro. Cawsant bump o blant ond bu farw pob un ohonynt cyn eu bod yn 30 oed.**

**Yn ogystal â dechrau Seren Gomer roedd yn awdur llyfrau, rhai crefyddol gan mwyaf, a chylchgronau a golygodd gyfrol o bwys, sef *Casgliad o Hymnau, o'r Awdwyr Goreu*.**

**Bu farw 10 Awst 1825, deucan mlynedd yn ôl i'r flwyddyn hon, a'i gladdu yn Eglwys y Santes Fair, Abertawe**

**Roedd Seren Gomer yn wythnosolyn arbennig gan ei fod wedi'i anelu at Gymru gyfan. Yn hynny o beth, roedd yn wahanol i'r wythnosolion Saesneg a oedd yn canolbwyntio ar newyddion lleol. Roedd iddo hefyd arlliw crefyddol. Meddai'r Cydymaith i Lenyddiaeth**


Seren Gomer
HYSBYSYDD WYTHNOSOL CYFFREDINOL DROS HOLL DYWYSOGAETH CYMRU.
DYDD SADWRN, IONAWR 1, 1814.

Cymru: ***'Yr oedd ynddo newyddion tramor a chenedlaethol, hanesion ffeiriau a marchnadoedd, newyddion am symudiadau llongau, colofn farddol a llythyrau'.***

**Yn anffodus, cyfyngedig fu'r llwyddiant er bod cylchrediad eitha eang gan yr wythnosolyn a'i fod yn cael ei werthu mewn dros hanner cant o ganolfannau yng Nghymru. Daeth i ben ym 1815 ar ôl 85 rhifyn a hynny oherwydd bod y dreth ar bapur yn ei wneud yn rhy ddrud a'r incwm am hysbysebu'n rhy fach. Bu'n golled ariannol i Harris.**

**Ond daeth ychydig o dro ar fyd! Cafodd y cyhoeddiad ei ailddechrau yn 1818 fel cylchgrawn pythefnosol gan Gomer gan barhau tan 1825 pan gafodd ei werthu i gyhoeddwr yng Nghaerfyrddin. Fe'i cyhoeddwyd wedyn fel cylchgrawn chwarterol gan y Bedyddwyr nes ei ddirwyn i ben yn 1983.**

**Roedd Joseph Harris yn emynydd ac mae ganddo 6 emyn yn Caneuon Ffydd (8, 161, 162, 165, 172, 733). Cyfieithiadau / efelychiadau yw'r tri chyntaf a beth am aros gydag un ohonynt, sef Rhif 8 nad yw, o bosib, mor adnabyddus â rhai o'i emynau eraill – *Dewch bawb sy'n caru enw'r Oen*. Fe'i dyfynnwn yn llawn er clod i Gomer adeg cofio'i golli ddeucan mlynedd yn ôl. Fel y dywed Wayne Hughes yn Emynau Caneuon Ffydd 2: *'Galwad i ymateb yn egnïol ar gân i hawliau'r Brenin Iesu arnom ni yw'r emyn hwn':***

<table>
<tr><td>Dewch, bawb sy'n caru enw'r Oen,<br>deffrown alluoedd cân;<br>i Frenin calon saint rhown fawl,<br>ymgrymwn oll o'i flaen.</td><td>Ein Brenin yw, a'n Ceidwad mawr,<br>ein Priod mwyn, di-lyth;<br>gogoniant hwn a leinw'r nef,<br>ei deyrnas bery byth.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Doed holl dafodau'r byd â chlod<br>di-baid i'n Brenin glân;<br>pan fyddo Crist yn destun mawl<br>pwy ddichon wrthod cân?</td></tr>
</table>


**DIWRNOD HEDDWCH RHYNGWLADOL**
**Dydd Iau 21 MEDI 2025**
**Cofiwch wylio am drefniadau Cymdeithas y Cymod a Chyngor Tref Caerfyrddin a Chyngor Sir Caerfyrddin i godi'r Faner Heddwch Ryngwladol**

# BEIBL I BAWB!

**Cyflwynwyd copi yr un o'r Beibl i bob plentyn ym mlwyddyn 5 yn**



**Ysgol Gynradd Gymraeg Y Dderwen, Caerfyrddin. Ariennir y Beiblau hyn yn flynyddol gan gasgliad a wneir yn Oedfaon Gŵyl Dewi Undebol Capeli ac Eglwysi Cymraeg Caerfyrddin. Pleser gan Y Parchedig Beti-Wyn James, Cadeirydd y Pwyllgor, oedd eu cyflwyno i'r plant**



## CYFARCHION PEN-BLWYDD



**Pen-blwydd Hapus yn 90 oed i Rose Mathias (Elim). Pleser gan ein Gweindiog oedd i chyfarch ar ddydd ei phen-blwydd gyda blodau oddi wrth aelodau Elim.**

## PRIODAS MARED A RHYS YN Y PRIORDY



**Ein dymuniadau gorau iddynt**

# Ifanc@Gofalaeth

**Mabolgampau MIC**


Pob lwc i bawb sy'n cystadlu ym Mabolgampau MIC (Menter Ieuenctid Cristnogol Sir Gâr) nos Wener!



**Diwedd tymor**

Daeth diwedd tymor a blwyddyn yn yr Ysgol Sul. Diolch yn fawr iawn am eich ffyddlondeb a diolch arbennig i'r athrawon a'r rheini am bob help a chefnogaeth! *Mwynhewch y gwyliau.*

**Helpwch Beti-Wyn i ddod o hyd i'w char!**



# Chwilotair Llyfrau'r Testament Newydd

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| U | A | T | C | A | F | M | A | T | H | E | W | I | C |
| O | T | D | I | A | I | N | O | L | A | S | E | H | T |
| L | I | C | U | L | N | A | U | I | M | A | R | C | M |
| I | M | R | E | F | F | E | S | I | A | I | D | D | O |
| S | O | A | R | P | H | I | L | I | P | I | A | I | D |
| N | T | A | C | C | P | E | D | R | D | M | I | H | P |
| O | H | E | N | D | I | A | I | T | A | L | A | G | U |
| M | E | G | C | O | R | I | N | T | H | I | A | I | D |
| E | U | A | C | S | D | I | A | E | R | B | E | H | G |
| L | S | N | H | D | I | A | I | S | O | L | O | C | P |
| I | T | O | R | H | U | F | E | I | N | I | A | I | D |
| H | U | H | G | I | U | O | T | H | I | M | I | A | I |
| P | J | W | D | A | S | A | T | I | T | U | S | A | C |
| I | D | H | D | A | I | D | D | U | G | T | A | D | N |

**Adnod i'w chofio:**

**Dywedodd Iesu**

**'Fi yw'r goleuni'r byd'**



IAGO
COLOSIAID
PHILIPIAID
TIMOTHEUS
PEDR
MATHEW
IOAN
RHUFEINIAID
LUC
GALATIAID

HEBREAID
MARC
CORINTHIAID
DATGUDDIAD
PHILEMON
JWDAS
EFFESIAID
THESALONIAID
ACTAU
TITUS

## CYMANFA GANU COFIO GWYNFOR YNG NGHAPEL HEOL AWST

## Y CIWIO



## Y GYMANFA



**Mae edrych ymlaen yn awr at y darlledaid ar Dechrau Canu Dechrau Canmol ar S4C**

# CWIS Y DIARHEBION CYMRAEG

Mae pob dihareb yn dechrau gyda'r llythyren 'H'

Llanwch y Bylchau! Rhowch gynnig arni! Ceisiwch ddyfalu beth yw'r gair coll!

Pob lwc!!

| | |
|---|---|
| 1 | Hawdd cymod lle bo --- |
| | |
| 2 | Hawdd cynnau tân ar hen --- |
| | |
| 3 | Hawdd twymo cawl --- |
| | |
| 4 | Haws dweud na --- |
| | |
| 5 | Haws dywedyd 'mynydd' na mynd --- |
| | |
| 6 | Heb ei fai heb ei --- |
| | |
| 7 | Hen gi ydyw ci --- |
| | |
| 8 | Hir ei dafod byr ei --- |
| | |
| 9 | Hir pob --- |
| | |
| 10 | Hwy y pery llid na --- |

Atebion ar Dudalen 35

**OEDFA DEULU A BEDYDD GUTO, MAB CATRIN A IOLO YN ELIM**





# CINIO DYDD SUL YR OFALAETH

**Pris**
**Oedolion: £22**
**Plant: £13**

Dydd Sul, 21 Medi
Gwesty'r Llwyn Iorwg
am 1.15yp



Enwau i...
Bancyfelin: Joanne
Cana: Mair
Elim: Ann
Heol Awst: Olga
Priordy: Rhian J

**SYLWCH AR DDYDDIAD NEWYDD Y CINIO, OS GWELWCH YN DDA**



**Ein Papur yn sgwrsio â**

**MIRAIN WALTERS**



**EP: Rydych chi'n athrawes Ysgol Sul yng Nghapel Elim, Mirain. Sut ydych chi'n mwynhau'r profiad?**
**MW:** *Wel i ddweud y gwir, dw i'n rhan o dîm sy'n cynnal yr Ysgol Sul. Mae pawb yn torchi llewys ac yn helpu – nid fi yn unig! Ond mae'n brofiad gwych! Mae gennym ni blant bach hyfryd, ac mae'n bleser eu gweld nhw'n magu hyder wrth gamu i'r pulpud, boed i ganu neu adrodd. Ryn ni wrth ein bodd yn cael stori a dysgu am gymeriadau'r Beibl, ac yna'n gwneud gweithgareddau addas mewn modd hwylus.*

**EP: Rydych chi'n dod o ardal hyfryd yn wreiddiol ac o gefndir amaethyddol. Soniwch ychydig am hyn.**
**MW:** *Ydw, o ardal Cil-y-cwm ger Llanymddyfri. Mae Dyffryn Tywi yn ardal odidog. Mae fy nhad yn joio dweud bod Sir Gâr fel gwydraid o laeth, ac mae'r hufen ar y top – sef Cil-y-cwm wrth gwrs! Cefais fy magu ar fferm ddefaid yno, yr ifancaf o dair chwaer. Mynychais Ysgol Gynradd Capel Cynfab, Cynghordy ac yna Ysgol Gyfun Pantycelyn yn Llanymddyfri.*




**EP: Mae'n debyg eich bod yn cadw'n brysur yn Sioe Cil-y-cwm ar un adeg!**
**MW:** *Mae sioeau amaethyddol lleol yn achlysuron hollbwysig yng nghefn gwlad gan eu bod yn tynnu'r ardal at ei gilydd. Un o fy uchafbwyntiau yn ferch fach oedd y gystadleuaeth rasio defaid – y Cil-y-cwm Gold Cup! Ar ôl treulio gwyliau'r haf yn hyfforddi 'Boio' yr hwrdd Suffolk i redeg, gallaf ddweud yn falch mai ni oedd perchen yr hwrdd cyflymaf yng Nghil-y-cwm ar un adeg!*

**EP: Ar ôl cymhwyso i fod yn athrawes ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, fe dreulioch chi amser yn addysgu yn Ysgol y Bannau, Aberhonddu ac yn awr rydych yn addysgu'n rhan amser yn Ysgol y Ddwylan, Castellnewydd Emlyn. Tybed beth sy'n rhoi'r pleser mwyaf i chi fel athrawes?**

**MW:** *Yn ddi-os, y pleser mwyaf yw gweithio gyda phlant yn ddyddiol a'u gweld nhw'n datblygu. Dw i'n dwlu ar blant bach, yn enwedig eu drygioni a'u diniweidrwydd. Dw i wedi bod yn ffodus iawn i ymweld ag ysgolion mewn gwledydd gwahanol hefyd, gwledydd fel Lesotho, Siapan, Gwlad yr Iâ, Seland Newydd a Phatagonia. Roedd clywed plant yn Ne America yn siarad Cymraeg ag acen Sbaeneg yn brofiad bythgofiadwy! Does dim ots o ba cefndir maent yn dod, pa iaith maent yn ei siarad, na beth yw eu cred, mae plant yr un peth ym mhob gwlad. Plant yw plant!*



**EP: Mae'n debyg fod enw arbennig gyda chi!!**
**MW:***Mae criw bach o blant yn Y Ddwylan yn fy ngalw yn 'Mrs Waffles', oherwydd pan oeddwn yn feichiog ac yn teimlo'n sâl, credwch neu beidio, yr unig beth a oedd yn fy helpu oedd 'Tre-groes Waffles'! Felly yn aml, roeddwn yng nghefn y dosbarth yn eu sgwlcan fel wiwer! Ers hynny, mae Mrs Walters wedi newid i Mrs Waffles!!*

**EP: Yng Nghaerfyrddin y cwrddoch chi ag Aled, eich gŵr sy'n amaethwr. Ond sut brofiad, Mirain, oedd symud o fferm ddefaid yng Nghil-y-cwm i fferm odro yng Nghaerfyrddin?!**
**MW:** *Wel, roeddwn i'n ddigon cyfarwydd â chodi'n fore, ond doeddwn i ddim wedi bod mewn parlwr godro o'r blaen! Mae'n rhaid i fi gyfaddef taw defaid sy'n mynd â'm bryd i o hyd, ac rwyf wedi llwyddo i ddarbwyllo Aled i brynu diadell fechan o ddefaid Dorset yn ddiweddar! Edrychaf ymlaen at weld beth fydd dileit Erin a Betsi – ai'r defaid neu'r gwartheg godro?!*



**EP: Rydych chi ac Aled yn rhieni i ddwy ferch fach, Erin (tair oed) a Betsi (blwydd oed) ac yn addoli yng Nghapel Elim. Ydych chi'n meddwl fod bywyd capel yn bwysig i deuluoedd ifainc heddiw?**
**MW:***Mae Aled a fi wedi cael ein codi a'n magu yn yr Ysgol Sul a'r Capel ac rydyn ni'n credu ei bod hi'n bwysig trosglwyddo hyn i'r plant. Dw i'n credu'n gryf bod angen i bobl ifanc fod yn rhan o weithgarwch yn y gymuned, boed yn gapel, neu'n fudiad tebyg i'r Urdd neu'r CFfI. Ryn ni'n ffodus iawn i allu dweud bod y mudiadau hyn wedi rhoi*

*profiadau a gwerthoedd hanfodol i ni, ac wedi sicrhau bod gennym yr ymdeimlad o berthyn yn ddwfn yn ein calonnau. Dyna'n union y math o werth yr hoffem i'n plant ei deimlo – yr ymdeimlad o berthyn.*

**EP: Beth yw'ch atgofion o'r mudiadau yma?**



**MW:***Mae gennyf atgofion melys iawn o seiclo i'r Ysgol Sul yng Nghapel Tŷ Newydd, Cil-y-cwm bob dydd Sul a chael straeon gan Mrs Margaret Davies, ein hathrawes arbennig. Mae ardal Cil-y-cwm wedi chwarae rhan flaenllaw yn hanes y Methodistiaid yng Nghymru ac mae'n debyg bod William Williams Pantycelyn wedi bod yn addoli yng Nghapel Tŷ Newydd. Un atgof arall oedd cystadlu gyda'r Ffermwyr Ifanc yng nghystadleuaeth y Ddeuawd Ddoniol, a chystadlu yn erbyn Aled (y gŵr). Dw i'n falch iawn o allu dweud mai ni – Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Cothi - oedd yn fuddugol, a dw i'n ei atgoffa o hynny'n aml!*

CFfI YFC CYMRU | WALES

**EP: Rydych yn canu'r delyn. Pryd dechreuodd y diddordeb a pha mor aml fyddwch chi'n troi ati?**

**MW:** *Dilyn ôl traed fy nwy chwaer wnes i. Roedden nhw'n canu'r piano, y delyn, y ffidil, y recorder, felly doedd dim dewis gyda fi! Roedden ni'n cael gwersi telyn gan Mrs Mary Stephens yn yr ysgol ac roedd hi'n ein hannog ni i gymryd rhan mewn cyngherddau a chystadlu mewn eisteddfodau. Druan o Dad yn gorfod carto'r delyn o un man i'r llall! Rwy'n dal i ganu'r delyn weithiau – mae'n ffordd dda i ymlacio.*



**EP: Mae bywyd yn brysur i chi a'ch gŵr ond fe gewch ambell ddiwrnod bant fel teulu bob yn hyn o hyn. Beth ydych chi'n hoffi'i wneud ar ddyddiau felly?**

**MW:** *Pan mae gwaith y fferm yn caniatáu, rydyn ni'n mwynhau diwrnodau allan gyda'r plant. Trip i lân y môr neu barc antur a does dim byd yn well 'da ni na mynd o'r parlwr godro i barlwr hufen iâ!*



**EP: I gloi, Mirain, pe baech fel person ifanc yn cael tri dymuniad, tybed beth fyddai'r rheini?**

**MW:** *Yn gyntaf, licen i petai pobl y byd yn gallu byw mewn harmoni a pheidio â chwympo mas; yna cael iechyd da; ac yn olaf, licen i gael tŷ sy'n glanhau ei hun!*

***EP*: Llawer o ddiolch i chi am y sgwrs Mirain, a phob dymuniad da i chi a'r teulu i'r dyfodol*.***
***MW:*** *Diolch i chi.*

**BORE COFFI McMILLAN**
***Yn rhan o Fore Coffi Mwya'r Byd***

**Dydd Gwener 19 Medi 2025**
**Clwb y Cwins, Abergwili**
**9.30 tan 12.00**

**Mynediad am ddim**


**Stondinau Cynnyrch Cartref a Raffl**

**Am ragor o wybodaeth, neu i gynnig eich help ac unrhyw gyfraniad at y raffl neu'r stondin cacennau, cysylltwch ag Alison Parsons, os gwelwch yn dda**

**Mae'r Bore Coffi hwn yn digwydd am y pymthegfed tro yng Nghaerfyrddin**

**NODER Y DYDDIAD Y TRO HWN, OS GWELWCH YN DDA**

**Gwefan yr Undeb: www.annibynwyr.org**

***BLYCHAU STAMPIAU A CHETRYS***

***Y PRIORDY***

***Croeso i chi gyfrannu – y cyfan yn mynd at achoson da***

**Edrychwn yn bennaf ar yr adeiladau**



**Adeilad canoloesol yng nghornel de-orllewinol mynwent Sant Cybi, Caergybi, yw Eglwys y Bedd.**


**Roedd Cybi yn sant Celtaidd o'r 6ed ganrif a sefydlodd ei hun yng Nghaergybi. Mae’n bosib fod Eglwys y Bedd yn nodi lleoliad gwreiddiol cell Cybi ble bu’n byw ac yn gwasanaethu.**

**Mae'r adeilad presennol yn dyddio o ddechrau'r 14eg ganrif, er iddo fod yn fwy nag y mae yn awr.**

**Roedd yr eglwys yn adfail cyn 1748, pan gafodd y corff ei adfer gan Thomas Ellis, yr offeiriad yn Sant Cybi, ar gyfer ei ddefnyddio fel yr ysgol gyntaf yng Nghaergybi.**

**Honnir bod Seregri, Gwyddel o'r 5ed ganrif wedi’i gladdu yma. Roedd yn arweinydd grŵp o ryfelwr Gwyddelig a oedd wedi sefydlu ar Ynys Môn ond a gafodd eu hel oddi yno gan Frenin Gwynedd, Cadwallon Lawhir ap Einion (tad Maelgwn Gwynedd).**

**ROBERT ELLIS (CYNDDELW)**
**1812 - 1875)**



## Gweinidog, Pregethwr, Bardd, Hynafiaethydd, ac Esboniwr

**A wyddech chi mai Robert Elis (Cynddelw) oedd y person cyntaf i gyhoeddi geiriadur uniaith Gymraeg? Ymhyfrydai mewn geiriaduraeth ac mae *Geiriadur Cynddelw, 1868* (neu *Geiriadur Cymreig Cymraeg*) yn enghraifft brin o  eiriadur uniaith Gymraeg (Cymraeg–Cymraeg).**

**Ganed Cynddelw yn Nhyn y Meini, Bryndreiniog, ger Pen-y-bont-fawr, plwyf Llanrhaeadr-ym-Mochnant, ym Mhowys 3 Chwefror 1812. Bu'n was fferm cyn dechrau pregethu a mwynhau gyrfa hir yn weinidog gyda'r Bedyddwyr yn Llanelian a Llanddulas, Glynceiriog, Sirhywi (Blaenau Gwent) a Chaernarfon.**



**Roedd yn ŵr amryddawn. Bu'n olygydd cylchgronau, ysgrifennodd erthyglau, cyhoeddodd ei farddoniaeth a golygodd sawl cyfrol. Roedd yn adnabyddus yn genedlaethol fel beirniad, arweinydd ac areithydd mewn eisteddfodau a hefyd fel darlithydd, yn enwedig mewn llên a hanes Cymru. Cyfrannodd yn helaeth i wasg ei enwad,**

**Bu farw 19 Awst 1875, sef 150 mlynedd yn ôl i eleni, yn ei hen gartref, y Gartheryr, rhwng Croesoswallt a Llanrhaeadr pan oedd ar daith bregethu a darlithio a'i gladdu yng Nglynceiriog.**

**CYFUNDEB GORLLEWIN CAERFYRDDIN**
**CWRDD CHWARTER**
**CAPEL PANT-TEG (FELIN-WEN)**
**Bore Dydd Iau - 11 Medi 2025 - 10.30**
**Un Cyfarfod**
***Croeso cynnes i bawb***



✝

**Y ddiweddar Mrs Mair Hughes**

Trist oedd clywed am golli Mair Hughes a fu farw'n ddisymwth yn ei chartref ar 16 Mai 2025.

Yn enedigol o Felin-gwm, fe'i magwyd ym Mheniel.

Ymgartrefodd yn Nhre Ioan ar ôl priodi, a dod yn aelod o gymdeithas yr eglwys yn Heol Awst. Bu'n addoli yn Horeb, Felin-gwm a Chapel Peniel cyn hynny.

Treuliodd ei gyrfa ym myd arlwyo a bu'n gogyddes mewn nifer o sefyliadau lleol ond cofir yn arbennig amdani yn gweithio yng Ngholeg Pibwrlwyd ble rhoddodd flynyddoedd o wasanaeth ffyddlon.

Er na fedrai fynychu'r oedfaon, roedd ei diddordeb yn fawr ym mywyd yr eglwys, yn hael ei chyfraniad blynyddol, ac fe fyddai'n edrych ymlaen at dderbyn Papur yr Ofalath bob mis.

Bu'n byw'n ddedwydd gyda'r phriod Cyril a fu'n ofalus iawn ohoni dros y blynyddoedd diwethaf.

Daeth ei cholli yn ddigon dirybudd, a meddyliwn am ei theulu annwyl yn eu hiraeth a'u galar; Cyril, ynghyd â Michael eu hunig fab a'i wraig Catherine, Caitlin ei hwyres a Haydn ei brawd.

Daeth cynulleidfa deilwng ynghyd i Amlosgfa Parc Gwyn fore Mawrth 3 Mehefin i oedfa i ddiolch am ei bywyd.

Gwasanaethwyd gan ein Gweinidog.

Heddwch i'w llwch.

**Ein Gweinidog**

✝

## Y ddiweddar Menna Lewis

Gyda thristwch y clywsom am golli Menna a fu farw'n dawel ar 9 Mai 2025 yn Ysbyty Glangwili.

Yn enedigol o Landybïe, symudodd i Gaerfyrddin gyda'i diweddar briod Elis ac Arwel y mab yn 1974 ac ymgartrefu yn Nant yr Arian.Treuliodd rai blynyddoedd yn helpu yn y gegin yn Ysgol Y Dderwen ac yn cynorthwyo dros ginio gyda'r disgyblion. Roedd yn dwlu ar blant a gwnaeth ffridiau da yn Y Dderwen.

Roedd Elis a Menna'n mwynhau gwyliau yn y garafán – Aberaeron yn ffefryn mawr - ynghyd â gwyliau dramor. Ac er iddi gael ei tharo gan strôc llwyddodd, gyda chymorth a gofal Elis, i barhau i deithio a mwynhau bywyd cystal â phosib.

Ergyd fawr iddi oedd colli Elis yn 2020 yng nghanol y cyfnod Covid, ac er iddi aros ar yr aelwyd am flwyddyn yn dilyn ei farwolaeth, symudodd yn y pendraw i Gartref Preswyl Castell Tywi lle derbyniodd ofal arbennig dros y pedair blynedd diwethaf.

Diolch y fawr iawn i aelodau Heol Awst sydd wedi bod yn ymweld â hi yn ffyddlon yn y Cartref.

Roedd ei hangladd yn breifat yn ôl ei dymuniad gydag oedfa yn y Capel Gorffwys ac yna'r Amlosgfa. Gwasanaethwyd gan ei Gweinidog.

Cynhelir Oedfa Goffa gyhoeddus i Menna ac Elis Lewis, Dydd Gwener, 29 Awst am 12.00 o'r gloch yn Festri Heol Awst. Croeso i bawb. Gosodir eu llwch i orffwys ym mynwent y dref wedi'r Oedfa Goffa.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf ag Arwel a'i deulu.

*'Yr hyn a allodd hon, hi a'i gwnaeth'*

**Ein Gweinidog**

EIN cofion cynnes at bawb sy’n anhwylus y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy’n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phawb sydd mewn cartrefi ac yn gaeth i’w haelwydydd ar hyn o bryd. Meddyliwn yn arbennig y mis hwn am Gwenni Thomas (E), Rose Mathias (E), Wyn Jones (HA) a Freda Thomas (HA). Cofion annwyl atoch i gyd.

Bu Nest Jenkins yn holi Einor W Reynolds (P), Ysgrifennydd Cyffredinol newydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ar Bwrw Golwg ar Radio Cymru.



Ein Gweinidog ddewisodd amrywiaeth o emynau i ddathlu’r Sulgwyn ar Caniadaeth y Cysegr ar Radio Cymru. Cofiwch hefyd wrando ym mis Awst pan fydd ein Gweinidog yn dewis emynau ar thema arall ar gyfer Caniadaeth y Cysegr.

O’r Crud i’r Bedd oedd y thema un wythnos ar Aur y Noson Lawen ar S4C. Roedd yr eitmau’n cynnwys ymddangosiad cyntaf Peter Hughes Griffiths (P) fel arweinydd noson lawen a hynny yn Nhreriffith, Trewyddel yn 1983. Wythnos arall, Cymru oedd y thema a dangosodd Ifan Jones Evans ‘Pants Lwcus Peter Hughes Griffiths’ i’r genedl! Yn yr un rhaglen clywyd Meinir Lloyd (P) yn canu (Treriffith, Trewyddel, 1983) a Bet Jones (E) gyda’r grŵp Dwy a Dime (Blaencors, Sanclêr 1987).



Llongyfarchiadau i Gwern O’Leary (P) a Sêr Caerfyrddin ar ennill Pencampwriaeth Cynghrair Bêl-droed Sir Gâr dan 15 am y drydedd flwyddyn yn olynol. Am gamp! Fe ddywedwn i fod Gwern a’i gydchwaraewyr yn dipyn o sêr!!

Ar y newyddion ar S4C yn ddiweddar y testun oedd cyhoeddiad y Llywodraeth fod Ystâd y Goron wedi cytuno prydles gyda dau gwmni i ddatblygu ffermydd tyrbinau gwynt sy'n arnofio ar y môr mewn dau leoliad yn y Môr Celtaidd. Mae disgwyl y bydd hyn yn creu buddsoddiad i ddatblygu porthladd Port Talbot i gyflenwi’r gwaith mas ar y môr, a miloedd



o swyddi yn cael eu creu yn y dyfodol. Bydd y ffermydd gwynt sy'n arnofio ar y môr y cyntaf o'u bath yn Nghymru a Lloegr. Cafodd Huw Michael (P) ei gyfweld ynglŷn â'r mater hwn.

Ar Troi'r Tir ar Radio Cymru bu Brian Walters (E) yn trafod y straeon gwledig diweddaraf yn y Wasg gyda Terwyn Davies.

A llongyfarchiadau i Ann Griffiths (P) ar ddod yn hen fam-gu i Malen oddi wrth bob un ohonom.



Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Medi i'n
Gweinidog neu Alun Charles

**CYDYMDEIMLAD**

**Estynnwn ein cydymdeimlad cywir â nifer o deuluoedd sydd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar:**

**Richard Axford, Carwyn a Tomos (P) ar farwolaeth tad Richard, Hywel Axford, Bryn-mawr**

**Brin Enoch (HA) ar golli'i gefnder Dr David Enoch, Llandaf, Caerdydd - meddyg, pregethwr, darlledwr ac awdur o bwys.**

**Clywsom hefyd am golli Margaret Jones (P). Estynnwn ein cydymdeimlad cywir â'r teulu yn eu profedigaeth. Bydd teyrnged iddi yn ein rhifyn nesaf.**

**Cofiwn amdanoch i gyd yn eich galar a'ch hiraeth**

| CWIS Y DIARHEBION - ATEBION | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | cariad | 6 | eni |
| 2 | aelwyd | 7 | Morgan |
| 3 | eildwym | 8 | wybod |
| 4 | gwneud | 9 | aros |
| 5 | drosto | 10 | galar |




**GWASANAETH DIOLCHGARWCH**
**CARTREF PLAS Y DDERWEN**
**Prynhawn Gwener – 26 Medi 2025**
**2.30**
***gyda'n* Gweinidog**

# DYLETSWYDDAU

## ROTA YMWELWYR
## ELIM, HEOL AWST A'R PRIORDY

### GORFFENNAF / AWST / MEDI / HYDREF

| E | Aelodau | HA | Aelodau | P | Emlyn Schiavone<br>Eurwen Jones ac Ann Thomas<br>Carys Morgans a Miriam Wyrwoll<br>Medi / Hydref - Ein Gweinidog |
|---|---|---|---|---|---|

## HEOL AWST
## DYLETSWYDDAU'R SUL

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gorffennaf | 6 | | Medi | 7 | |
| | 13 | | | 14 | Rhian Jones a Nigel George |
| | 20 | Phil Hopley a Helen Jones | | 21 | |
| | 27 | | | 28 | Rhian Jones a Nigel George |

## CAPEL ELIM

### BLODAU

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gorffennaf | 6 | Edward Davies | Medi | 7 | Pat Davies |
| | 27 | Alison Evans | | 21 | Bet Jones |

## PARATOI'R BWRDD CYMUN

| | | |
|---|---|---|
| Gorffennaf | 6 | Anona Dafis |
| Medi | 7 | Bet Jones |

## PRIORDY
### GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

| Gorffennaf | | Medi | |
|---|---|---|---|
| Gofalwr | Gwresogwr | Gofalwr | Gwresogwr |
| Alison Parsons | | Elinor W Reynolds | Adrian Evans |

## BLODAU

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gorffennaf | 6 | Olive Lloyd | Medi | 7 | Eurwen Jones |
| | 13 | Sul y Cyfundeb | | 14 | |
| | 20 | Janet Davies | | 21 | Gloria Evans |
| | 27 | | | 28 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Awst | 24 | Bore | Mair Meredith |

## PARATOI'R BWRDD CYMUN

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gorffennaf | 6 | Bore | Alwen Owen a Fiona Elias |
| Awst | 24 | Bore | Elinor Wyn a Syfi Rolant |
| Medi | 7 | Bore | Eleri Thomas a Delyth Davies |

## DARLLENWYR

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gorffennaf | 6 | Angharad Wyn | Medi | 7 | Catrin Ann Thomas |
| | 13 | Sul y Cyfundeb | | 14 | Y Plant |
| | 20 | I'w gadarnhau | | 21 | Heledd Tomos |
| | 27 | Eirlys Davies | | 28 | Alwen Owen |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Awst | 24 | Bore | I'w gadarnhau |

## CYHOEDDWYR

| | |
|---|---|
| Gorffennaf | Adrian Evans |
| Awst 24 | I'w gadarnhau |
| Medi | Tim Hayes |

## DIOLCH YN FAWR

**Diolch i Beti-Wyn, Tudur Dylan Jones, Mirain Walters ac Athrawon yr Ysgolion Sul am y lluniau'r mis hwn.**

| CYFARFODYDD DIACONIAID AC YMDDIRIEDOLWYR EIN GOFALAETH | | | |
|---|---|---|---|
| **ELIM** | **Prynhawn Mercher 17 Medi** | **1.30** | **Capel Elim** |
| **HEOL AWST** | **Prynhawn Mercher 24 Medi** | **2.00** | **Festri Heol Awst** |
| **Y PRIORDY** | **Nos Lun 15 Medi** | **7.30** | **Festri'r Priory** |

## MIS AWST

**Byddaf yn cymryd seibiant o'm gwaith yn ystod mis Awst yn ôl fy arfer.**

**Os bydd argyfwng yn codi yn fy absenoldeb a fyddech cystal â chysylltu ag ysgrifenyddion yr eglwysi os gwelwch yn dda.**

**Gwerthfawrogwn pe na baech yn fy ffonio ar fy ffôn symudol yn ystod y gwyliau ac eithrio ysgrifenyddion eglwysi'r Ofalaeth.**

**Diolch am eich cydweithrediad**

**Beti-Wyn**

**BANCYFELIN: Joanne Richards 07412 254929**
**CANA: Marlene Jones 07528 454834**
**ELIM: Brian Walters 07717 005764**
**HEOL AWST: Nigel George 07583 114927**
**Y PRIORDY: Catrin Heledd Jones 07399 603981**

## ADDYSG GYMRAEG YN NHREF CAERFYRDDIN YN 70 OED!

**Go brin fod unrhyw beth mwy arwyddocaol wedi digwydd yma yng Nghaerfyrddin yn 1955 na gweld Ysgol Gymraeg Caerfyrddin yn agor ar 3 Ionawr yn rhan o Ysgol y Merched Pentrepoeth a hynny'n dilyn blynyddoedd o ymgyrchu caled ar ran rhieni ac eraill. Tyfodd a datblygodd addysg Gymraeg yn ein tref o'r dyddiau cynnar hynny, a gwelwyd ffurfio Ysgol y Dderwen sy'n dwyn yr arwyddair cwbl briodol 'O'r Fesen, Derwen a Dyf'. Diolchwn felly i bawb a fu'n gweithio dros addysg Gymraeg ac sy'n parhau i wneud hynny yn ein tref a llongyfarchiadau mawr i Ysgol y Dderwen ar gyrraedd carreg filltir mor nodedig yn ei hanes,**

# SULIADUR YR OFALAETH - GORFFENNAF, AWST A MEDI 2025

| | 10.00 (oni nodir yn wahanol) | 11.30 | 3.00 oni nodir yn wahanol | 5.00 oni nodir yn wahanol |
|---|---|---|---|---|
| **Gorffennaf 6** | Priordy ©<br>Gweinidog | Elim © + HA<br>Gweinidog | | |
| **Gorffenanf 13** | | | Sul Y Cyfundeb<br>Neuadd Bronwydd<br>2.00 i bawb | Rihyrsal Cymanfa Ganu - 5.00 festri Priordy |
| **Gorffennaf 20** | Priordy<br>Gweinidog | | Heol Awst + E<br>Gweindiog | |
| **Gorffennaf 27** | Priordy<br>Gweinidog | Elim + HA<br>Gweinidog | | |
| | | | | |
| **Awst 3** | **UNDEBOL I'R DREF**<br>Heol Awst **10.00**<br>Parchg Andrew Lenny | | | |
| **Awst 10** | **UNDEBOL I'R DREF**<br>Penuel **10.30**<br>Adeilad 4,<br>Parc Dewi Sant | | | |
| **Awst 17** | **UNDEBOL I'R DREF**<br>Tabernacl **10.30**<br>Parchg Eirian Wyn Lewis | | | |
| **Awst 24** | **UNDEBOL I'R DREF ©**<br>Priordy **10.00**<br>Parchg David Jones | | | |
| **Awst 31** | **UNDEBOL I'R DREF**<br>Elim **10.30**<br>Llinos Jones | | | |
| | | | | |
| **Medi 7** | Priordy©<br>Gweinidog | Elim + HA ©<br>Gweinidog | | Rihyrsal Cymanfa Ganu – 5.00 festri'r Tabernacl |
| **Medi 14** | Priordy – Oedfa Deulu<br>Gweinidog | | Heol Awst © + E & P<br>Cyrddau 1/2 blynyddol<br>Canon Eileen Davies | Prif Rihyrsal Cymanfa Ganu – 5.00 Capel Heol Awst |
| **Medi 21** | Priordy<br>Gweinidog | Elim + HA<br>Gweinidog | Cinio Dydd Sul yr Ofalaeth | |
| **Medi 28** | Priordy<br>Gweinidog | | | Heol Awst<br>Cymanfa Ganu |

# Cymanfa Ganu Undebol Caerfyrddin a'r Cylch



**NOS SUL 28 MEDI 2025 – 5 PM**

**Capel Heol Awst Caerfyrddin SA31 3AP**

**Arweinydd**

**Pat Jones, Caerfyrddin**

**Organydd**

**Meirion Wynn Jones, Caerfyrddin**

**Ceir dwy eitem gan Gôr Seingar**

**Bydd tair Rihyrsal fel y ganlyn**

**Nos Sul, 13 Gorffennaf 2025 am 5**
**Festri'r Priordy.**
**Arweinydd: Nicki Roderick**
**Cyfeilydd:  Y Priordy**

**Nos Sul, 7 Medi 2025 am 5**
**Festri'r Tabernacl.**
**Arweinydd: Helen Gibbon**
**Cyfeilydd: Meredydd Edwards**

**Nos Sul, 14 Medi, 2025 am 5**
**Capel Heol Awst**
**Y Brif Rihyrsal**
**Arweinydd: Pat Jones**
**Organydd: Meirion Wynn Jones**

***Rhaglenni'r Gymanfa – £3 (Hen Nodiant neu Sol-ffa)***
***Ar gael gan Huw Michael (P), Olga Williams (HA) ac***
***Elisabeth Evans (E)***